Adroddiad Cyfarfod 13:03:19
Dathlu Gŵyl Ddewi – Pant Du

Nos Fercher Mawrth y 13eg cafwyd ein cinio Gŵyl Ddewi blynyddol, eleni ym Mhant Du, Penygroes.

Ar ddechrau'r noson croesawodd Gwenan bawb yno, gan estyn cydymdeimlad â Meira oedd yn methu dod oherwydd ei phrofedigaeth o golli ei brawd.

Er bod llawer ohonom wedi bod ym Mhant Du droeon, dyma'r tro cyntaf i nifer fod yno ers agor yr ystafell fwyta odidog. Cafwyd pryd ardderchog a phawb wedi eu plesio'n arw.

Wedi gorffen bwyta adroddodd Richard Huws y perchennog, hanes y tŷ gwreiddiol gan ein tywys yn ôl i'r ail ganrif ar bymtheg. Wedyn ei hanes ef ac Iola yn prynu'r tŷ a'r tir yn 2003 ac yn mentro sefydlu'r winllan a'r berllan eang.

Diolchodd Gwenan ein llywydd am y croeso a gawsom, am y pryd ardderchog ac i Richard am ddweud yr hanes.

Bydd ein cyfarfod nesaf nos Fercher Ebrill 10fed, pryd y bydd Cecile am fentro ein dysgu i drefnu blodau. Cofiwch ddod â blodau efo chi ynghyd â chynhwysydd bach crwn plastic i'w rhoi.